# Yr Helfa Coed Hynafol

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

## **UNED 2:** TAFLEN ATHRAWON

**(amser a awgrymir: 1-2 awr)**

# Cyflwyniad Cyffredinol

Edrychwch ar goed gyda'ch disgyblion. Maent yn siffrwd yn y gwynt ac mae'r dail yn chwythu a symud; eto i gyd, mae boncyff coeden fawr yn llwyddo i sefyll yn gadarn hyd yn oed yn y dymestl gryfaf. Dychmygwch sut mae rhai coed ar glogwyni ac mewn mannau gwyntog yn plygu yn y gwynt ac yn gwyro wrth iddynt dyfu.

Gan ddefnyddio paentiau neu siarcol a phensiliau, ceisiwch arbrofi i weld sut y gellir creu symudiad ar bapur. Dilynwch batrwm y gwynt gan gadw boncyff y goeden yn gadarn ond gan bluo a chymylu'r dail i greu symudiad. Ystyriwch y tywydd a'r cymylau a sut gallwch chi lunio tirlun o goed gydag wybrennau tymhestlog. Meddyliwch am artistiaid eraill fel Turner a Van Gogh a'r technegau a ddefnyddiwyd ganddynt i greu teimlad o symudiad.

### Amcanion Dysgu – Symudiad

- ***Cyflwr y tywydd a'r amgylchedd***
  Dysgu deall pam bod coed mor hyblyg, a pham eu bod yn plygu yn y gwynt a thywydd garw ac yn byw mor hir. Sut mae gwahanol hinsoddau yn effeithio ar eu twf.
- ***Adnabyddiaeth***
  Dysgu sut i adnabod gwahanol rywogaethau o goed ac archwilio'r gwahanol siapiau a ffurfiau.
- ***Archwilio teimladau a mynegiant***
  Dysgu sut i gyfleu'r teimladau a'r naws a geir o astudio coeden mewn cyd-destun garw neu atmosfferig trwy ddefnyddio paentiau a deunyddiau eraill addas i efelychu ei maint a'i siâp ac i greu drama a mynegiant.
- ***Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau***
  Dysgu sut i ddewis a thrin gwahanol ddeunyddiau i gipio'r teimlad o symudiad a graddfa.

### Offer angenrheidiol:

Ystod o wahanol baentiau ac inciau dewisol
Pensiliau, siarcol a chreonau
Sbwng, carpiau, hen gribau a deunyddiau i grafu a rhwbio
Tywelion papur
Brwshys mawr a bach (gellir defnyddio brwshys peintio waliau)
Papur cetris A3 neu fwy
Camerâu digidol neu ffilm â'r gallu i wrthwneud gyda llaw
Tripod camera
Mynediad i'r Rhyngrwyd

- ***Astudio artistiaid eraill***
  Deall sut mae artistiaid eraill wedi gweithio mewn gwahanol gyfryngau ac arddulliau i bortreadu eu dehongliadau o symudiad a'r amgylchedd.
- ***Ffotograffiaeth***
  Dysgu sut i ddefnyddio camera i ddal symudiad naill ai gyda thripod neu heb yr un.
- ***Trafod a chynnig sylwadau mewn dull dadansoddol***
  Archwilio a thrafod ffyrdd o weithio i gynhyrchu'r canlyniadau dymunol a gallu cynnig sylwadau ar waith ei gilydd a chymharu hyn ag artistiaid a ffotograffwyr eraill.
- ***Mynediad i'r Rhyngrwyd***
  Defnyddio'r Rhyngrwyd i ymchwilio i wefannau Coed Cadw a'r Helfa Coed Hynafol i ddarganfod mwy am goed a rhywogaethau, a pheth o'r gwaith sy'n cael ei gynnal yn y DU i gadw'r etifeddiaeth hon.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

# Yr Helfa Coed Hynafol

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

### Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

#### Sgiliau

***Deall***

1. *defnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain trwy ddadansoddi/cymharu/gwerthuso*
2. *archwilio arferion gweithio amrywiol artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol gyfnodau/lleoedd/diwylliannau gan ystyried eu diben a'u bwriadau.*

***Ymchwilio***

1. *datblygu sgiliau penodol ar gyfer cofnodi ar sail arsylwi/profiad/y cof/y dychymyg a datblygu sgiliau penodol ar gyfer ymchwilio i'r amgylchedd naturiol gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau*
2. *archwilio a threfnu ystod o ddeunydd cyfeirio/ystod o adnoddau er mwyn sefydlu a datblygu syniadau neu themâu*
3. *cadw llyfr braslunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymchwilio er mwyn datblygu syniadau a theimladau/archwilio themâu/ archwilio defnyddiau a phrosesau ac arbrofi â nhw/cychwyn a chefnogi gwaith annibynnol.*

***Gwneud***

1. *archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio*
2. *dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau*
3. *cael profiad o ystod eang o dechnegau a chyfryngau i wireddu eu syniadau/mynegi eu teimladau/cyfleu ystyr.*

#### Ystod

***Deall***

*Cael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill/gwaith eu cyfoedion/dulliau a phrosesau/ delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes.*

*Datblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng llyfrau/fideos/adnoddau digidol/y rhyngrwyd.*

***Ymchwilio***

*Ymchwilio i briodweddau defnyddiau a phrosesau/gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol/gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud.*

*Defnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o lyfrau/fideos/ adnoddau digidol/y rhyngrwyd/ eu harbrofion ymarferol a'u cofnodion eu hunain ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys enghreifftiau lleol a Chymreig*

***Gwneud***

*Dylunio a gwneud gwrthrychau/arteffactau/delweddau gan ddangos dychymyg a mynegiant.*

*Cael cyfleoedd i weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp*

### Cysylltiadau eraill â'r Cwricwlwm

*Datblygu cyfathrebu: Llafaredd a Chyfathrebu ehangach*
*Datblugu TGCh*
*ADCDF*

3720/04/08

These sheets have been designed to be shared. Feel free to photocopy and provide to colleagues. The Woodland Trust is the UK's leading woodland conservation charity dedicated to the protection of our native woodland heritage. **www.woodlandtrust.org.uk** **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

# Yr Helfa Coed Hynafol

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

### Cyflwyniad – Trafodaeth a Nodau

Mae'r wers hon yn tybio bod gan y disgyblion beth gwybodaeth o wefan Yr Helfa Coed Hynafol fel y gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella ar eu dehongliad o'r wers hon. Gweler cynlluniau gwersi blaenorol am fwy o wybodaeth ynghylch hyn.

### Coed a'u hamgylchedd – gosod y sefyllfa

Fel yr awgryma eu henw, mae coed hynafol wedi bod o gwmpas am flynyddoedd lawer. Coed yw ydyw rhai o'r coed hynaf, a gellir eu gweld yn aml yn tyfu mewn mynwentydd. Amcangyfrifir bod yr hynaf ohonynt oddeutu 3,000 blwydd oed. Gellid ystyried coed eraill fel y dderwen yn hynafol os ydynt yn byw am 500-600 mlynedd. Rydym yn gwybod bod yr ywen yn goeden wydn iawn a gall haenu ei hunan i barhau i dyfu os yw darn ohoni'n marw; dyna sy'n cyfrif am ei hirhoedledd.

Mae'n bosibl y bydd coed fel y fedwen arian ond yn byw am 200 mlynedd ond maent yn dosbarthu hadau ar led ac yn atgynhyrchu'n sydyn. Felly, o ran ei hirhoedledd, mae llawer yn dibynnu ar rywogaeth y goeden a'r amodau y mae'n byw ynddynt. (Gellir dysgu mwy am hyn ar wefan Coed Cadw).

Mewn fforest, mae coed yn ymladd â'i gilydd i dyfu a chael mynediad at oleuni. Ar fynydd, gallant lynu at y creigiau i oroesi, a chânt eu plygu a'u troelli gan wyntoedd a stormydd. Trafodwch rym natur, erydiad, a'r tymhorau a sut gall hyn effeithio ar y ffordd y mae coeden yn tyfu ac yn goroesi.

Trafodwch ein cefn gwlad ac amgylcheddau gwahanol lle mae coed yn tyfu (trefi, mynyddoedd, fforestydd ac eraill). Beth sydd wedi ysbrydoli cymaint o artistiaid o fri i gynhyrchu gweithiau celf amrywiol a gwahanol o'r amodau hyn, rhai'n realistig, rhai'n swreal ac eraill yn haniaethol?

Meddyliwch am y stormydd a'r tymhorau dirifedi y mae'r coed hyn wedi'u goddef. O dyfu rhisgl trwchus, boncyffion cadarn a changhennau a dail hyblyg, mae'r coed hyn wedi esblygu i ddelio gyda newid hinsawdd o bob math. (Astudiwch ddail o wahanol siapiau a defnyddiwch y canllawiau adnabod coed sydd ar gael yn **www.naturedetectives.org.uk/cymraeg** i adnabod gwahanol rywogaethau).

Ymhell o gyferbyniadau o'r fath, gall ein coed maestrefol fod yn tyfu mewn parcdiroedd neu strydoedd mawr, caeau ffermwyr neu erddi cymdogion. Maent yn sefyll yn dawel ac yn tyfu drwy'r tymhorau wrth i ni dyfu o fod yn blant i fod yn oedolion, heb i ni gymryd fawr o sylw ohonynt. Mae ein hoes ni yn gyfnod byr iawn mewn cymhariaeth â choeden hynafol gannoedd o flynyddoedd oed. Trafodwch yr agweddau hanesyddol. Sut oedden ni'n byw 100 mlynedd neu 500 mlynedd yn ôl?

Ar fryniau uchel, mae'n ymddangos fel petai coed yn aml yn plygu ac yn crymu eu hunain dros y creigiau er mwyn swatio'n agos i'r ddaear i osgoi'r corwyntoedd.

Mae llawer o artistiaid, beirdd ac awduron wedi cael eu hysbrydoli gan yr amodau a'r tirweddau dramatig hyn gan gynhyrchu gwaith sy'n gyfoethog o ran pwnc ac ysbrydoliaeth. Allwch chi feddwl am rai enghreifftiau?

Ystyriwch gynnwys pynciau eraill fel hanes, barddoniaeth, ysgrifennu a cherddoriaeth yn y prosiect hwn; mae'n bosibl y gallech ddatblygu thema fel rhan o strategaeth amgylcheddol eich ysgol.

Yn anffodus, mae llawer o'n hen goed wedi cael eu torri i lawr a'u defnyddio fel deunydd adeiladu a thanwydd ac i wneud dodrefn. Y dyddiau hyn, mae'n coed yn parhau i fod dan fygythiad, ond mae mwy o ymwybyddiaeth ynghylch eu pwysigrwydd i'n hiechyd a'n lles. Trafodwch y cydbwysedd rhwng ein hangen am ffyrdd a thai a pha mor bwysig yw cynnal ein mannau gwyrdd.

### Emosiwn a theimladau – deunyddiau a dulliau i'w trafod gyda'r disgyblion

- ***Beth yw'r pwyntiau allweddol er mwyn deall pwrpas yr ymarfer hwn?***
  Wrth astudio technegau a dulliau artistiaid eraill, gallwn weld enghreifftiau o'u dehongliadau. Adnabod y teimladau sy'n cael eu cyfleu o weld coeden mewn storm, awyr dramatig neu amgylchedd heddychlon - rhyfeddod, ofn neu dawelwch? Deall sut i drosglwyddo'r teimladau hyn i ddelwedd weledol a defnyddio cyfryngau gwahanol i gyflawni hyn. Mae gwahanol bobl yn gweld pethau mewn ffyrdd gwahanol, a dyna pam bod gan bob un ohonom y gallu i gynhyrchu gweithiau celf gwych.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

# Yr Helfa Coed Hynafol

## Trafodwch gyda'ch disgyblion:

Pa mor aml ydych chi wedi cysgu mewn ystafell lle mae'r ffenestri'n cael eu rhuglo gan sŵn dail a changhennau'n chwifio mewn gwyntoedd cryf? Dychmygwch yr ofn y mae hyn yn ei greu ynddoch. Trafodwch sut y gellir creu hyn yn eich gwaith, o bosibl trwy ddefnyddio sain neu liw a mudiant.

Pa fathau o fudiant sydd yno? Weithiau – hyrddiadau cryf i un cyfeiriad ac ar adegau eraill, hyrddiadau cylchol sy'n tynnu'r goeden i wahanol gyfeiriadau, yn siglo a gwichio. Sut gallwch chi ddefnyddio eich brwshys neu gyfryngau eraill i greu'r patrwm symudiad hwn?

Mae'r gwynt yn creu llawer o'r effaith hon – gallwch glywed y gwynt a theimlo'r gwynt, ond allwch chi ond gweld yr effaith y mae'n ei gael, yn plygu coed, chwythu dail hydrefol yn sbiralau, yn chwyrlïo cymylau yn yr awyr nes eu bod yn dod yn fyw.

Sut gallwch chi gipio drama'r elfennau a graddfa'r coed hynafol hyn? Sut gallwch chi gynhyrchu darn o gelf llawn dychymyg i arddangos symudiad a maint?

Trafodwch y cyfryngau gwahanol sydd ar gael a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Dyma rai enghreifftiau: siarcol, Conté, pasteli, olewau a dyfrlliw. Sut byddech chi'n penderfynu pa gyfrwng yw'r un cywir i'w ddefnyddio?

Allwch chi feddwl am artistiaid oedd yn defnyddio mudiant yn eu gwaith? Roedd Van Gogh yn gwneud chwyrliadau gyda lliwiau cryf i bwysleisio'r effaith. Roedd Francis Bacon yn peintio portreadau, a oedd yn aml yn anodd eu hadnabod oherwydd y mudiant a'r symudiad dwys yn ei beintio. Peintiodd Turner wybrennau cynhyrfus a thirluniau eang a oedd yn llawn emosiwn a rhyfeddod. Canolbwyntiodd Constable ar olygfeydd cefn gwlad heddychlon fel testun ei baentiadau. Mae pob un o'r artistiaid hyn yn portreadu gwahanol set o emosiynau ac arddulliau yn eu gwaith.

Meddyliwch am ddawnsiwr yn ceisio cyfleu teimlad coeden yn cael ei chwythu. Ceisiwch ddefnyddio'r corff cyfan i fynegi'r teimlad gan lunio'r strociau drwy eich brwsh.

Peintiodd Matisse 'Dawns', sy'n cyfleu teimlad real o symudiad wrth iddynt ddal dwylo mewn cylch. Defnyddiodd liw a chysylltodd y bobl â'i gilydd i greu ei fudiant.

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

Creodd Jackson Pollock symudiad yn ei luniau dadleuol trwy ddefnyddio paent yn diferu a beiciau. Trafodwch weithiau haniaethol yn fanylach.

Ewch i'r wefan hon:
**http://www.flickr.com/photos/bobwatt/2205851123/**
i weld llun o'r enw 'Running away with the hairdresser' gan Kevin Sinnott (artist o Dde Cymru), sy'n hongian yn oriel yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Sut mae e'n llwyddo i gyfleu symudiad yn y llun hwnnw?

Mae celf Op yn creu teimlad o symudiad drwy rith optegol.

Sut mae lliw yn effeithio ar fudiant? Mae lliwiau cynnes fel coch yn ymddangos yn agosach tra bod lliwiau oer fel glas yn encilio. Trwy ddefnyddio gwyrddion cynhesach ac oerach, gall dail ymddangos fel petaent yn encilio.

## Symudiad a choed hynafol

Gall lliwiau golau llachar ymddangos yn agosach, tra bod lliwiau tywyll, difrifol yn encilio.

Trafodwch sut y gellir defnyddio cyfyngau cymysg ac amrywiaeth o dechnegau i greu'r teimlad o symudiad. Enghreifftiau fel llinellau llym a golchion, llinellau tonnog a chromliniau i efelychu siapiau'r coed wrth iddynt blygu, lliwiau niwlog/aneglur ac effeithiau sbwng i feddalu ymylon

## Gweithgaredd – Trafodwch gyda'ch disgyblion:

Erbyn hyn, mae gennych ystod eang o syniadau i'w defnyddio i gynhyrchu eich gwaith celf.

Defnyddiwch pa dechnegau a deunyddiau bynnag y teimlwch sy'n addas i greu'r argraff yr ydych am ei chreu.

Mae'r dewis rhwng defnyddio paentiau, golchion a strociau brwsh i gynhyrchu eich argraff o goeden yn nannedd y gwynt yn ei hamgylchedd, clogwyn, cae, stryd neu rywle arall, neu ddefnyddio darnau wedi'u torri allan i greu montage o naill ai ffotograffau neu luniadau ynghyd fel haenau. Mae defnyddio ffotograffau fel montage gyda chyfryngau eraill fel pensil a siarcol yn gallu cynhyrchu canlyniadau diddorol iawn.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

# Yr Helfa Coed Hynafol

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

Cofiwch deimlo'r emosiwn a defnyddio'r teimladau hyn i ysbrydoli eich gwaith.

Posibiliadau eraill i'r prosiect hwn yw defnyddio eich syniadau fel murlun, poster gyda thestun sy'n gweddu i'r gwaith celf, montage a wnaed fel ymdrech grŵp neu draethawd ffotograffig, gan ddefnyddio'r effeithiau mwyaf diddorol, ac o bosibl cyfuno'r rhain gyda phaentiadau.

Anogwch y grŵp i drafod a gwerthuso gwaith wrth iddo fynd rhagddo - mae hwn yn brosiect arbrofol ac yn dibynnu ar ddefnyddio'r arbrofion a'r camgymeriadau hyn a'u hystyried yn fanteision. Mae hyn o fudd arbennig i unrhyw ddisgyblion gydag anawsterau dysgu gan fod y rhyddid i arbrofi a gwneud camgymeriadau yn aml yn cynhyrchu canlyniadau cyffrous a gwerth chweil.

Dechreuwch trwy arbrofi ar bapur garw - crëwch siapiau chwyrlïog gan ddefnyddio paentiau, sbyngiau a brwshys gwahanol i greu'r effaith.

Defnyddiwch olchion, inciau neu baentiau rhedegog a brwshys mawr i greu teimlad o fudiant yn eich gwaith.

Defnyddiwch strociau cadarn onglog i gyfleu teimlad o strwythur y creigiau, mynyddoedd neu strydoedd.

Gall boncyff y goeden fod yn eithaf cadarn a mawr – a yw hwn yn symud?

Mae dail a changhennau yn rhuglo a chwythu mewn gwyntoedd cryfion – sut gallwch chi gyfleu'r lliw a'r mudiant?

Gellir defnyddio delweddau lluosog mewn haenau i greu'r teimlad o symudiad.

Meddyliwch am beintio fforest o goed a'r cyfan yn symud gan ddefnyddio blociau o liw a strociau aneglur. Gall hyn fod yn haniaethol i greu tensiwn a llif rhwng y siapiau.

### Ffotograffiaeth

Os oes cyfle i dynnu ffotograffau, gellir sicrhau effeithiau diddorol gyda chamera llaw, digidol neu ffilm.

Ceisiwch osod eich camera ar dripod ac edrych ar goeden o onglau amrywiol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o gyflymderau caead araf o 1/8fed eiliad i 1 eiliad, cadwch y tripod yn sefydlog ac os ydych yn tynnu llun o gangen â dail arni, yna byddwch fwy na thebyg yn cael delwedd eithaf da o'r gangen ond gyda dail aneglur. Gwnewch hyn eto yn erbyn cefndir tywyll fel boncyff y goeden a bydd y dail mwyaf llachar yn sefyll allan ac yn creu rhai effeithiau diddorol. Gellir helaethu'r rhain i'w defnyddio o fewn paentiad, montage neu fel deunydd i'w ddylunio a'i argraffu.

Fel arall, gallwch ddefnyddio'r camera ar gyflymderau araf heb y tripod a symud y camera ar draws y gwrthrych - bydd hyn yn cynhyrchu darlun aneglur crwm o beth wêl y camera. Mae hyn yn dda i greu cefndiroedd neu syniadau ar gyfer paentiadau. Gan fod hwn yn ddull hap a damwain, mae'n well defnyddio camerâu digidol er mwyn i chi weld y canlyniadau'n syth, ac arbrofi hyd nes y byddwch yn cael rhywbeth diddorol.

Argraffwch rai o'r canlyniadau mwyaf diddorol. Gellir defnyddio'r rhain wedyn fel cyfeirnodau i baentiadau neu eu defnyddio fel darnau wedi'u torri allan a'u hymgorffori mewn paentiad, ffotograffau eraill neu fontage.

### Crynodeb

Yn ystod y wers hon, byddwch wedi ymdrin ag ystod o destunau sy'n ymwneud â symudiad a choed.

Bydd disgyblion wedi arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a ffotograffeg i ddatblygu'r cysyniad o symudiad.

Aseswch y canlyniadau mewn trafodaeth grŵp i ddadansoddi'r gwahanol syniadau a'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Gellir defnyddio'r syniad hwn mewn pynciau eraill neu ei ddefnyddio i ymestyn y wers i feysydd eraill. Mae dylunio posteri, gwaith amlgyfrwng (effeithiau i animeiddiad gyda thrac sain am ddrama ychwanegol), gwefannau neu ffotograffiaeth yn enghreifftiau.

*Gall fod yn bosibl datblygu'r prosiect hwn mewn cysylltiad â phynciau craidd eraill*. Gwyddoniaeth, Hanes, Cymraeg, Saesneg, Cerdd a Drama.

Astudiwch artistiaid eraill a'u technegau a'u ffyrdd o gyfleu eu syniadau a'u teimladau. Dysgwch o hyn er mwyn deall sut i ddarganfod eich ysbrydoliaeth a'ch syniadau eich hunan.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

# Yr Helfa Coed Hynafol

# Celf a Dylunio CA3

## Symudiad a choed hynafol

## **UNED 2:** TAFLEN ATHRAWON

### Gwaith ysgrifenedig neu waith llafar grŵp, deunydd sesiwn

1 ***Mae'n ganol nos ac mae storm ffyrnig tu allan; mae canghennau'r coed yn taro'r ffenestr ac yn gwneud synau iasol!***
Sut ydych chi'n teimlo? Disgrifiwch eich teimladau a'r hyn sy'n mynd trwy eich meddwl.

2 ***Disgrifiwch sut deimlad fyddai bod yn hen goeden, wedi'i gwreiddio yn yr un llecyn ers canrifoedd.***
Beth fyddai wedi newid? A fyddai mwy o dai, traffyrdd?
A gredwch chi fod mwy o bobl ar hyd y lle?
A fyddai llai o goed o gwmpas yr adeg honno pan oedd y goeden yn lasbren?
Sut olwg fyddai ar y dirwedd 300 mlynedd yn ôl?
Beth oedd yn digwydd mewn hanes?

3 ***Disgrifiwch 24 awr ym mywyd coeden hynafol, ddydd a nos.***
Beth sy'n digwydd gyda'r adar a'r anifeiliaid pan fydd yr haul yn codi?
Beth sy'n digwydd yn ystod yr awr frys?
Fyddai pobl yn eistedd a gorffwys dan y goeden hon?
Fyddai plant yn chwarae neu'n dringo'r goeden hon?
Beth sy'n digwydd gyda'r hwyr, pan fydd pobl yn mynd adref?
Pa anifeiliaid sy'n dod allan gyda'r nos?

4 ***Mae deilen yn tyfu o fod yn flaguryn hyd nes ei bod wedi cyrraedd ei llawn dwf – ysgrifennwch am y ffordd y mae'r ddeilen hon yn gwthio ei hun i olau haul llachar a disgrifiwch sut deimlad tybed yw hyn.***
Disgrifiwch siâp y ddeilen fel y mae'n gwthio allan ac yn agor i dyfiant newydd hardd.
A yw'r haul yn taflu cysgodion a siapiau ar wead y ddeilen?
Cymharwch hyn gyda dawnsiwr ballet; sut byddech chi'n creu hyn mewn dawns?

5 ***Trafodwch fywyd coeden ar stryd fawr brysur neu fynydd gwyntog.***
Sut deimlad yw bod yn yr amgylcheddau hyn?
Beth sy'n digwydd i'r goeden wrth iddi dyfu ac wrth i'r tywydd newid drwy'r tymhorau?

6 ***Dychmygwch mai chi yw'r gwynt sy'n chwythu dros gaeau a fforestydd, yn chwyrlïo drwy'r coed a'r dail.***
Disgrifiwch y symudiad hwn a sut byddech chi'n teimlo.

7 ***Gan feddwl am gwestiwn 6, trafodwch nawr y lliwiau fyddai'n addas i'r gwynt yn eich dychymyg wrth iddo deithio ar wahanol gyflymderau gan chwyrlïo a throi.***
Pa liwiau allai asio â'i gilydd i gynrychioli cyflymder a natur aneglur a niwlog y gwynt?
Pa liwiau sy'n encilio a pha rai sy'n ymddangos yn agosach (lliwiau oer a phoeth)?

8 ***Pa gyfryngau fyddech chi'n eu defnyddio i greu'r teimlad o fudiant a sut y byddech chi'n eu defnyddio?***
A ellir defnyddio paentiau olew, pasteli a sbyngiau i greu'r effeithiau hyn?

9 ***Dychmygwch faint coeden hynafol mewn cymhariaeth â phryfyn neu anifail bach sy'n byw ar ganghennau'r goeden.***
Disgrifiwch sut byddai hyn yn teimlo yn nhermau graddfa, uchder a mudiant.
Dychmygwch pa mor gyflym y gall aderyn hedfan, sut gall gwiwer neidio ar hyd y canghennau a sut mae'r pryfyn yn teimlo wrth fyw tu mewn i'r rhisgl.
Pa mor fawr y mae'r goeden yn ymddangos i bryfyn bach?

10 ***Trafodwch ddau wahanol artist sydd wedi defnyddio technegau gwahanol i beintio neu gyfleu symudiad yn eu gwaith.***
Beth oeddynt yn ceisio'i fynegi gyda symudiad? A oedd yn emosiwn neu a oedd yn fodd i'r artist fynegi symudiad neu arddull?

11 ***Gall camerâu arddangos delwedd lem neu aneglur wrth ddefnyddio dinoethiad wedi'i amseru ar dripod.***
Esboniwch pam bod hyn yn digwydd.
Beth sy'n digwydd os bydd rhywbeth yn symud pan fydd caead y camera ar agor?
Pa gyflymderau caead fyddech chi'n eu defnyddio i rewi symudiad gyda chamera?

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
**www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08